

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU
CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau
Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

9 Tachwedd 2020

Cyfarfod Rhithiol

Presenoldeb:

Aelodau Etholedig: Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Beth Lawton.

Aelodau Annibynnol: Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

Aelod Pwyllgor Cymunedol: Mr Richard Parry Hughes

Hefyd yn bresennol: Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Dewi Roberts

HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD

(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau
Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)

Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Safonau	9 Tachwedd, 2020
-------------------------------------	------------------

PWNC

Eitem 5: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2019/20

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 3 Rhagfyr, yn ddarostyngedig i ychwanegu:-

- paragraff yn nodi bod rôl gan bob cyngor, a phob aelod o bob cyngor, i arddel a hyrwyddo safon uchel o ymddygiad yn llygaid y cyhoedd, ac i herio ymddygiad amhriodol, boed yr Ombwdsmon yn ymwneud â'r mater ai peidio.
 - cyflwyniad a rhagair gan y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro.
-

CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

O blaid	8
Yn erbyn	0
Atal	0

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.
